



**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)
Cofnodion o Gyfarfod Arbennig y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2025 am 10:00am**

Yn bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Stephen Spill	(SS)	Is-gadeirydd
Abigail Harris	(AH)	Prif Swyddog Gweithredol
Jean Church	(JC)	Aelod Annibynnol
Marie Davies	(MD)	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Phartneriaethau
Deb Lewis	(DL)	Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Anne-Louise Ferguson	(ALF)	Aelod Annibynnol
Andrew Griffiths	(AG)	Aelod Annibynnol
Darren Griffiths	(DG)	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Pherfformiad
Keith Lloyd	(KL)	Aelod Annibynnol
Martin Lloyd	(ML)	Aelod Annibynnol
Nicola Matthews	(NM)	Aelod Annibynnol
Reena Owen	(RO)	Aelod Annibynnol
Patricia Price	(PP)	Aelod Annibynnol
Tina Ricketts	(TR)	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Liz Rix	(LR)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Phrofiad Cleifion
Nuria Zolle	(NZ)	Aelod Annibynnol (trwy Teams)

Yn Bresennol:		
Matthew John	(MJ)	Cyfarwyddwr Digidol
Dr Raj Krishnan	(RK)	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Hazel Lloyd	(HL)	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Carys Richards	(CR)	Uwch Reolwr Llywodraethu Corfforaethol
Claire Taylor	(CT)	Llais
Richard Thomas	(RT)	Cyfarwyddwr Mewnwelediad, Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Ymddiheuriadau:		
Pat Dunmore	(PD)	Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Richard Evans	(RE)	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr



Christine Morrell	(CM)	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd
Gill Richardson	(GR)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd (Dros Dro)

Acronymau			
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	LIC	Llywodraeth Cymru
CALI	Cyferwerth ag Amser Llawn	HCSW	Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru	RN	Nyrs Gofrestredig

Dechreuodd y cyfarfod am 10:01.

Cyfeirnod y Cofnod:	Eitem ar yr Agenda
---------------------	--------------------

RHAN 1. MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 CROESO A SYLWADAU CYFLWYNIADOL

183/25	<p>Wrth agor y cyfarfod, estynnodd JW groeso cynnes i'r rhai a oedd yn bresennol yn bersonol, a'r rhai ar-lein. Esboniodd, fel Corff Llywodraethol y sefydliad, fod gan y Bwrdd ystod o gyfrifoldebau a oedd yn cael eu cyflawni'n ffurfiol drwy gyfarfodydd y Bwrdd bob deufis, gydag agenda cynhwysfawr. Roedd adegau pan oedd rhaid i'r Bwrdd gyfarfod y tu allan i'r cylch cyfarfodydd hwn a dyma oedd yr achos heddiw, gyda'r unig bwrpas o ystyried y mater Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) Band 2/3.</p> <p>Aeth JW ymlaen i ddweud bod BIPBA yn un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, gyda 12800 o staff cyferwerth ag amser llawn (CALI), 14% ohonynt yn Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd, sef sylfaen y gweithlu, a'u rôl yn ganolog yng ngofal a phrofiad cyffredinol cleifion. Roedd gan y Bwrdd ddyletswydd gofal a chyfrifoldeb dros iechyd a lles yr holl staff; roedd JW yn ymwybodol y byddai hyn yn swnio'n wag i'r Gweithwyr Cymorth Gofal, a oedd o'r farn bod y Bwrdd wedi'u bradychu ac wedi mynd yn ôl ar ei air i wneud y taliadau perthnasol ym mis Rhagfyr. Ar ran holl aelodau'r Bwrdd, ymddiheurodd JW am y dicter, y gofid a'r siom a achoswyd gan y penderfyniad i 'oedi ym mis Medi'.</p>
--------	---



	<p>Nid oedd y Bwrdd erioed wedi bwriadu torri'r cytundeb ac roedd wedi gweithredu'n ddidwyll drwyddo draw; deilliodd yr 'oedi' o'r ddealltwriaeth bod y Cytundeb Cenedlaethol ar fin dod i ben a'r awydd gwirioneddol i sicrhau bod staff Iechyd, Gofal a Lles yn gyfartal â gweddill Cymru.</p> <p>Fel y digwyddodd, ni chafwyd casgliad o'r fath ac roedd y Bwrdd wedi gweld, gwrando ar, a darllen am yr effaith ddofn ar staff, yn rhannol drwy gyflwyno deiseb gyda 2000 o lofnodion. Cydnabu aelodau'r bwrdd yr effaith niweidiol ar ymddiriedaeth ac ymrwymodd i weithio'n ddiflino i'w hadeiladu, gan ddechrau bryd hynny ac yno.</p>
--	---

1.2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

184/25	<p>Cafwyd ymddiheuriadau gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Richard Evans, a gynrychiolir gan Dr Raj Krishnan • Chris Morrell • Gill Richardson • Pat Dunmore
--------	--

1.3 DATGANIAD O FUDDIANNAU

185/25	<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau y tu allan i'r rhai sydd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.</p>
--------	---

RHAN 2. PRIF AGENDA

2.1 DEISEB 'GWEITHWYR GOFAL IECHYD WEDI'U BRADYCHU – BWRDD IECHYD BAE ABERTAW E CADWCH AT EICH ADDEWID'

186/25	<p>Gwahoddodd JW TR i gyflwyno'r eitem hon. Cadarnhaodd TR ei bod hi, a dirprwyaeth o'r Bwrdd, wedi cyfarfod â staff a'u cynrychiolwyr ddydd Mawrth, 21 Hydref, ac wedi derbyn y Ddeiseb â 2000 o lofnodion. Cyflwynodd hi nawr i'w derbyn a'i gydnabod yn ffurfiol.</p> <p>DERBYNIODD y Bwrdd y Ddeiseb a'i CHYDNABOD YN FFURFIOL.</p>
--------	---

2.2 ADRODDIAD GWEITHWYR CYMORTH GOFAL IECHYD BAND 2/3



187/25

Cyfeiriodd TR at sylwadau agoriadol JW a rhoddodd gefndir ychwanegol, sef bod trafodaethau wedi dechrau ym mis Mai 2024, gyda BIPBA yn ymrwmo i gytundeb lleol gydag Unison ar 9 Rhagfyr 2024, wedi'i hwyluso trwy Gyflogwyr GIG Cymru. Roedd hyn yn ymrwmo BIPBA i wneud taliadau i'r staff dan sylw erbyn 31 Rhagfyr 2025. Bryd hynny, roedd BIPBA yn deall y byddai byrddau iechyd eraill yn dilyn, trwy Gytundeb Cenedlaethol.

Adroddodd TR ar gasgliad proses ddilysu gadarn: o'r 1133 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd o fewn y cwmpas, roedd 1105 (97%) yn bodloni'r meini prawf ar gyfer uwchraddio i fand 3. Y dyddiad cau ar gyfer cyflogres mis Rhagfyr oedd 23 Hydref 2025 ac roedd yn rhaid i'r Bwrdd gwblhau'r cytundeb heddiw, er mwyn galluogi'r swyddogaeth gyflogres i brosesu'r taliadau mewn pryd ar gyfer cyflogres 21 Rhagfyr 2025.

Roedd oedi wrth gwblhau'r Cytundeb Cenedlaethol yn golygu nad oedd safbwynt cenedlaethol terfynol, ac roedd cytundeb BIPBA yn unol â fersiwn 14, a oedd mewn grym ym mis Rhagfyr 2024.

Diolchodd JW i TR am ei briff a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau: Croesawodd RO yr adroddiad a gallu'r Bwrdd i anrhydeddu'r ymrwymiad i wneud taliad ym mis Rhagfyr; roedd hi wedi bod yn rhan o ddirprwyaeth y Bwrdd ar 21 Hydref ac wedi cael y profiad yn un dwys. Roedd ailadeiladu ymddiriedaeth yn hanfodol, ac edrychodd RO ar y Bwrdd i wneud hyn. Diolchodd i bawb a fu'n rhan o lywio ffordd gadarnhaol trwy fater mor gymhleth.

Adleisiodd JC sylwadau RO a chydabu'r angen i ailadeiladu perthnasoedd â staff. Cadarnhaodd TR fod cyfarfod wedi'i drefnu gydag Unison a Phwyllgor Negodi Gweithiwr cymorth gofal iechyd (HCSW) yn syth ar ôl cyfarfod y Bwrdd; byddai cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a chyfathrebu yn digwydd, i ddechrau ailadeiladu perthnasoedd ymddiriedus a hefyd i glywed yn uniongyrchol gan rai o'r staff dan sylw.

Cysylltodd SS ei hun â'r sylwadau a wnaed gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod a'r rhai a wnaed gan gydweithwyr eraill ar y Bwrdd.

Yna gwahoddodd JW AH fel Prif Weithredwr, a'r Swyddog Atebol, i wneud sylwadau.

Mynegodd AH ei hymddiheuriadau diffuant am y gofid a'r dicter a achoswyd gan y penderfyniad anodd i oedi'r gweithrediad ym mis Medi 2025; roedd y Bwrdd wedi bod eisiau sicrhau bod staff Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ym Mae Abertawe yn cael cydraddoldeb â chydweithwyr ledled Cymru ac wedi deall bod cwblhau'r Cytundeb Cenedlaethol ar fin digwydd.



Roedd y Bwrdd wedi clywed lleisiau staff yn glir iawn a diolchodd AH i gydweithwyr Unison a'r staff hynny a oedd wedi lleisio eu pryderon, gan bwysleisio'r pwysigrwydd a roddodd y Bwrdd ar glywed gan staff rheng flaen. Mynegodd ei diolch hefyd i gydweithwyr BIPBA ac i gydweithwyr Llywodraeth Cymru am eu gwaith caled wrth alluogi'r Bwrdd i gyrraedd y sefyllfa heddiw.

Roedd hwn yn fater cymhleth, a diolchodd AH i'r staff a oedd yn rhan o'r ymarferion dilysu unigol dros fisoedd yr haf, gan ddod i ben ym mis Awst 2025. Rhoddodd trylwyredd y broses sicrwydd i'r Bwrdd. Heddiw, cymerodd gam sylweddol a chroesawgar ymlaen a chyfle i ddechrau ailadeiladu ymddiriedaeth, gan fod y Bwrdd yn gwerthfawrogi'r Fforwm Partneriaeth fel rhan allweddol o'i beirianwaith cydweithio.

Yna myfyriodd AH ar rôl Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd fel rhan hanfodol o deulu BIPBA; nhw a dreuliodd y mwyaf o amser gyda chleifion ac a gyfrannodd yn sylweddol at ofal a phrofiad cyffredinol cleifion.

Cyfeiriodd AH hefyd at gyfrifoldebau statudol ehangach y Bwrdd, ac yn enwedig y gofyniad i weithredu o fewn ei ddyraniad adnoddau. Roedd y sefydliad mewn diffyg ariannol ar hyn o bryd ac roedd yn rhaid iddo bennu trywydd tair blynedd, i ddychwelyd i wasanaeth a chynaliadwyedd ariannol. Byddai hyn yn gofyn am ddylunio, a chyflawni, nifer o gamau cynllunio'r gweithlu, moderneiddio gwasanaethau a gwella gwasanaethau, yn unol ag amcanion strategol BIPBA.

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- **CYMERADWYWD** y taliadau i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd Band 2 yng nghyflogres Rhagfyr 2025.
- **CYDNABUWYD** cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn yn 2025/26.
- **CYTUNWYD** y byddai'r costau refeniw a'r manteision parhaus yn rhan o'r broses gynllunio ariannol ar gyfer 2026/27.
- **CYDNABUWYD** bod y taliad cydnabyddiaeth yn daliad arbennig a fyddai angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.
- **CYTUNWYD** i drosglwyddo goruchwyliaeth y broses weithredu Band 2/3 a moderneiddio'r gweithlu sy'n parhau i foderneiddio i'r Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

RHAN 3. EITEMAU I'W TRAFOD



3.1 UNRHYW FATER ARALL

188/25

Dyweddodd JW fod mater arall wedi dod i'r amlwg dros nos, ar ffurf Llythyr Agored gan y garfan myfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Abertawe, a oedd yn agosáu at ddiwedd eu hyfforddiant ac a fyddai'n chwilio am swydd fel nyrs gofrestrdig (RN) yn fuan. Gofynnodd JW i LR roi cefndir y mater i'r Bwrdd.

Dyweddodd LR fod y garfan nyrsio yn agosáu at ddiwedd eu hyfforddiant; nid oedd gan BIPBA unrhyw swyddi gwag cangen oedolion Band 5 ar hyn o bryd, ond roedd gwaith ar y gweill i nodi cyfleoedd, yn BIPBA, ac mewn byrddau iechyd cyfagos. Roedd hi'n gweithio'n agos gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'r Prifysgolion i archwilio pob opsiwn posibl.

Cadarnhaodd JW gyda KL y byddai Prifysgol Abertawe yn cynnig cefnogaeth a chytunodd i weithredu hyn gyda chydweithwyr yn y Brifysgol. **CAM GWEITHREDU: KL**

Gofynnodd JW i HL ddosbarthu'r Llythyr Agored i aelodau'r Bwrdd ac i LR ddod ag adroddiad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd, i gynnwys y dimensiwn Cymru gyfan ehangach a'r goblygiadau ar gyfer cynllunio gweithlu strategol. **CAM GWEITHREDU: HL, LR**

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

CYDNABUWYD cyflwyno Llythyr Agored gan garfan o fyfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Abertawe.

CYTUNWYD i dderbyn adroddiad ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Cyfarfod Nesaf y Bwrdd Iechyd: Cyfarfod nesaf Bwrdd BIPBA:

Dydd Iau 27 Tachwedd 2025, Prifysgol Abertawe

Daeth y cyfarfod i ben am 10:19.